



YSGOL DYFFRYN TRANNON, TREFEGLWYS

Trefeglwys, Caersws, Powys SY17 5PH



Pennaeth / Headteacher

Caroline Harries

Ffôn/Phone: 01686 430644

Ebost/Email: swyddfa@dyffryntrannon.powys.sch.uk

Gwefan/Website: www.dyffryntrannon.powys.sch.uk

30.09.2020

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Yn gyntaf, hoffwn ddweud pa mor hyfryd yw gweld pawb yn ôl yn yr ysgol. Mae wedi bod yn amser hir ers i ni gyd fod gyda'n gilydd! Hoffwn hefyd groesawu ein disgyblion newydd a'n plant Derbyn i Ysgol Dyffryn Trannon; wrth gwrs, heb anghofio eu Rhieni / Gofalwyr hefyd. Gobeithio y byddwch chi gyd yn hapus iawn yn ystod eich amser yma.

Covid

Nodyn i'ch atgoffa mai symptomau Coronavirus yw:

- Peswch newydd, parhaus
- Tymheredd uchel
- Colli neu newid yr ymdeimlad o arogl neu flas.

Anfonwyd Canllaw i Rieni trwy Seesaw yr wythnos diwethaf, yn eich hysbysu o'r gweithdrefnau pe bai'ch plentyn, yn datblygu symptomau neu'n byw gyda rhywun sydd â symptomau. Gellir cyrchu hwn hefyd trwy ein gwefan ysgol.

Clwb Brecwast

Mae'r clwb hwn wedi ailagor gyda Tracy Jones ac Ann Jones yn arwain. Anfonir linc i'r system archebu drwy Seesaw ar ddiwedd pob wythnos. Atgoffir rhieni bod yn rhaid archebu lle er mwyn mynychu a dylid talu trwy ParentPay.

Clwb Ar Ôl Ysgol Tree Tops

Mae'r clwb ar ôl ysgol hefyd wedi ailagor gyda Rosie Grindey a Beth Williams. Rhaid archebu lle ymlaen llaw drwy'r e-bost canlynol: treetopsydt@gmail.com

Llyfrau Darllen

Mae wedi bod yn heriol ceisio meddwl am ffordd hawdd i lyfrau gael eu hanfon adref i'ch plant eu darllen. Isod mae gwybodaeth pryd y bydd angen i'ch plentyn ddod â'u bag darllen i mewn a phryd y bydden nhw'n cael eu danfon adref. Penderfynwyd ar y rhain ar sail i ni orfod gadael yr eitemau am 72 awr cyn eu cyffwrdd. Gall eich plentyn darllen ychwanegol os dymunent gan ddefnyddio llyfrau gartref neu ar-lein.

** Mae rhai disgyblion yn enwedig yn rhan uchaf CA2 yn 'darllen rhydd' ac felly ni fyddai hyn yn berthnasol.

Dosbarth ac Athrawes	Bagiau darllen i'r ysgol	Bagiau darllen i fynd adref
Mrs Jones – Rec & year 1	Mawrth / Tuesday	Gwener / Friday
Miss Poole – Years 1 & 2	Gwener / Friday	Llun / Monday
Mrs Aeron – Years 3 & 4	Mawrth / Tuesday	Gwener / Friday
Mrs Owen – Years 5 & 6	Gwener / Friday	Llun / Monday
Mrs Davies – Yrs 2, 3, 4, 5 & 6	Llun / Monday	Gwener / Friday

Pethau o adref

Mae'n bwysig bod cyn lleied o eitemau â phosibl yn dod mewn i'r ysgol. Yr unig eitemau fyddai eu hangen fyddai ffrwyth (mewn cynhwysydd bach os oes angen) potel ddŵr a bocs bwyd os nad yw'ch plentyn yn cael cinio ysgol. Nid oes angen anfon bagiau llyfrau / bagiau i'r ysgol ar unrhyw adeg arall.

Diogelwch

Ar gyfer disgyblion sy'n cael eu cludo i'r ysgol gan Rieni / Gofalwyr, a gai i ofyn i chi ystyried pa mor gyflym y mae rhai ohonoch yn gyrru yn y maes parcio. Gyrrwch yn araf er mwyn osgoi damwain ddifrifol os gwelwch yn dda.

Tynnwyd fy sylw hefyd fod ffonau symudol wedi cael eu defnyddio wrth yrru, ym maes parcio'r ysgol. A gai eich atgoffa bod defnyddio ffôn symudol â llaw wrth yrru yn anghyfreithlon.

Dechrau a Diwedd y diwrnod ysgol

Ein nôd yw cael y disgyblion sy'n cyrraedd / gadael ar fws ysgol, i mewn i'r ysgol neu'r adref yn gyntaf. Gai ofyn felly nad yw Rhieni / Gofalwyr yn ciwio o fewn y system unffordd nes bod **yr holl** fysiau / tacsis wedi gadael. Diolch am eich cydweithrediad.

Cacennau o adref

Ar hyn o bryd, ni all disgyblion rannu bwyd sy'n dod i mewn o'u cartref ag eraill yn eu dosbarth. Felly, os yw'ch plentyn yn cael pen-blwydd, ni fydden nhw'n gallu dod â bwyd neu losin i mewn i'w rannu, hyd yn oed os ydyn nhw mewn pecynnau. Byddwn yn adolygu hyn wrth i'r canllawiau ddiweddarau.

Watsys

Mae nifer o blant yn dod i'r ysgol gyda watsys V-tech sy'n galluogi nhw i dynnu lluniau ayyb. Gofynnir yn garedig i chi ddweud wrth eich plentyn i beidio â gwisgo nhw i'r ysgol am resymau diogelwch. Diolch.

Manylion cyswllt

Diolch i'r rhai sydd eisoes wedi diweddarau'ch manylion cyswllt trwy'r linc a anfonwyd adref ar ddechrau'r tymor. Cysylltwch â ni os ydych chi'n cael anhawster.

Diolch eto am eich holl gefnogaeth a chysylltwch â ni os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch.

Yn gywir

Caroline Harries
Pennaeth